

Bwletin Prosiect

Pont Newydd yr A487 dros Afon Dyfi

Mai 2021

GRIFFITHS

civil engineering and construction

**Mae Griffiths wedi'u penodi yn Brif
Contractwyr gan Lywodraeth Cymru i
adeiladu Pont Newydd yr A487 dros Afon Dyfi.**

Rydym yn teimlo'n hynod freintiedig o gael ein dyfarnu â'r contract hwn ac yn edrych ymlaen yn arw at ddechrau ein gwaith, yn ogystal â chwrdd â phreswylwyr a chymuned ehangach Machynlleth.

Bydd y gwaith yn dechrau ar y safle fis Mai 2021 a disgwylir ei gwblhau erbyn haf 2023.

Dros y rhai misoedd nesaf, byddwn yn trefnu ein gweithlu, yn sefydlu adeiladau ein safle ac yn ymgymryd â gwaith clirio'r safle. Bydd gwaith adeiladu'r bont newydd yn dechrau fis Awst 2021.

Swyddog Cysylltu â'r Cyhoedd, Gail Jones



Mae Gail Jones wedi'i phenodi yn Swyddog Cysylltu â'r Cyhoedd neilltuol y cynllun. Osoes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y prosiect, mae manylion cyswllt Gail i'w cael ar waelod y bwletin hwn.

Cael y newyddion diweddaraf ynghylch adeiladu Pont Newydd dros Afon Dyfi

YGallwch gael y newyddion diweddaraf ynghylch cynnydd ein gwaith drwy dudalen we bwrpasol y cynllun www.community.alungriffiths.co.uk/dyfibridge neu drwy ein dilyn ar Twitter [@alungriffiths_](https://twitter.com/alungriffiths)

Fel arall, os hoffech gael cylchlythyrau a diweddariadau ynghylch y prosiect yn uniongyrchol i'ch cyfeiriad e-bost, gallwch gofrestru i'n rhestr bostio yma: <https://mailchi.mp/alungriffiths/dyfibridge> neu drwy sganio'r Cod QR hwn:



Bydd eich data yn cael ei storio yn unol â rheolau GDPR ac ni fydd yn cael ei rannu ag unrhyw drydydd parti a chaiff ei ddefnyddio yn unol â'ch prosiect(au) dewisol yn unig a dim ond ar gyfer hyd y gwaith hwnnw.

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich sylwadau, cysylltwch drwy ein tudalen we community.alungriffiths.co.uk neu cysylltwch â Swyddog Cysylltu â'r Cyhoedd y cynllun, Gail Jones, ar 0330 041 2182 neu Dyfibridgeenquiries@alungriffiths.co.uk

 Dilynwch ni ar Twitter [@alungriffiths_](https://twitter.com/alungriffiths)



A hoffech chi ymuno â'n tîm Prosiect Pont yr A487 dros Afon Dyfi?

Fel rhan o'n hymrwymiad i ddarparu cyfleoedd gwaith i bobl leol, rydym yn awyddus i recriwtio Cynorthwydd Gweinyddol llawn amser i gefnogi ein Tîm o'n swyddfa ym Machynlleth. Mae'n ofynnol eich bod yn gallu defnyddio Microsoft Word ac Excel a bod yn siaradwr Cymraeg rhugl. Gall yr oriau gwaith fod yn hyblyg.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'n Rheolwr Swyddfa, Michelle Jones, ar 01654 702 703 / 07812 003 012 neu drwy e-bost: michelle.jones@alungriffiths.co.uk